# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Tachwedd 2015 i'w hateb ar 1 Rhagfyr 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith yr adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)2613(FM)**W**

**2. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y GIG yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2597(FM)

**3. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith bosibl adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar lywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)2611(FM)

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd gwasanaethau bws ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2598(FM)

**5. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu annog meddygon teulu i weithio yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)2602(FM)

**6. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am ddyfodol S4C? OAQ(4)2606(FM)**W**

**7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa neges y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chyfleu i uwchgynhadledd newid hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ym Mharis? OAQ(4)2612(FM)

**8. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol? OAQ(4)2608(FM)

**9. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am brosiectau cyfalaf yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)2607(FM)

**10. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei chanllawiau ar dryloywder ac atebolrwydd o fewn llywodraeth leol yn cael eu dilyn? OAQ(4)2600(FM)

**11. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth ym Mhontypridd ac ardal Taf Elái? OAQ(4)2604(FM)

**12. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru parthed arolygu safonau cartrefi nyrsio? OAQ(4)2609(FM)**W**

**13. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau ynni cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)2605(FM)

**14. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y bydd ei chynigion ar gyfer llywodraeth leol yn ei chael ar ofal cymdeithasol? OAQ(4)2610(FM)

**15. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa waith ymgynghori y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ymgymryd ag ef mewn perthynas â'r ardaloedd cynnyrch ehangach is a ddefnyddir yn y cyfrifiad? OAQ(4)2596(FM)